**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Busnes**

**Tachwedd 2012**

# Diwygiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 6.23: Cadeiryddion Dros Dro yn y Cyfarfodydd Llawn

## Diben

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.

2. Mae'r adroddiad yn argymell newidiadau i Reol Sefydlog 6.23. Mae'r newidiadau y cytunodd y Pwyllgor Busnes arnynt i'w gweld yn Atodiad A, ac mae'r cynnig ar gyfer Rheol Sefydlog newydd i'w weld yn Atodiad B.

## Cefndir

3. Yn ei gyfarfod ar 23 Hydref, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur a oedd yn amlinellu'r dewisiadau ynghylch diwygio Rheol Sefydlog 6.23, sy'n ymwneud â Chadeiryddion Dros Dro yn y Cyfarfodydd Llawn.

4. Ar ôl rhoi cyfle i'r Rheolwyr Busnes ymgynghori ag Aelodau, trafododd y Pwyllgor Busnes y mater unwaith eto yn ei gyfarfod ar 13 Tachwedd.

## Y darpariaethau presennol

5. Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu dau ddewis ynghylch caniatáu i Aelod arall gadeirio'r Cyfarfod Llawn pan na fydd y Llywydd a'r Dirprwy yn gallu cadeirio.

*Cadeiryddion Dros Dro*

6. O dan Reol Sefydlog 6.22, caiff unrhyw Aelod, ac eithrio aelod o'r llywodraeth, ar gais y Llywydd neu'r Dirprwy, gadeirio'r Cyfarfod Llawn dros dro.

7. Ni chaiff Cadeiryddion Dros Dro eu hethol gan y Cynulliad, ac, o dan y Rheolau Sefydlog presennol, mae'r swyddogaethau y gallent eu harfer wedi'u cyfyngu i'r rheini sy'n ymwneud â chadw trefn yn y Cyfarfod Llawn, a nodir yn Rheol Sefydlog 13. Golyga hyn eu bod fel arfer wedi'u cyfyngu i gadeirio rhan o ddadl neu ddatganiad, gan na allant ofyn y cwestiwn cysylltiedig i'r Cynulliad ar ddiwedd dadl, na chadeirio pleidlais.

8. Gall Aelod sydd wedi bod yn Gadeirydd Dros Dro yn ystod cyfarfod bleidleisio yn y ffordd arferol.

*Ethol Llywydd Dros Dro / Dirprwy Lywydd Dros Dro*

9. Caiff Llywydd Dros Dro ei ethol gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 6.24, a gall arfer holl swyddogaethau'r Llywydd sy'n ymwneud â'r Cyfarfod Llawn nes y bydd naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn gallu gweithredu, gan gynnwys cynnal pleidlais a defnyddio'r bleidlais fwrw pan fo angen.

10. Ni all Llywydd Dros Dro a gaiff ei ethol yn y modd hwn bleidleisio ar unrhyw eitemau yn ystod y Cyfarfod Llawn hwnnw, ni waeth a yw'r Llywydd Dros Dro yn cynnal y bleidlais dan sylw neu beidio.

**Yr Arfer**

11. Mae'n arferol i Lywydd Dros Dro neu Ddirprwy Lywydd Dros Dro gael ei ethol pan ddisgwylir i'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd fod yn absennol yn ystod Cyfarfod Llawn cyfan, ac i ddefnyddio Cadeirydd Dros Dro ar gyfer cyfnodau byrrach o absenoldeb. Yr arfer sydd wedi datblygu yw bod Comisiynwyr yn ymgymryd â'r swyddi hyn yn eu tro.

12. Mae defnyddioldeb y dewis o gael Cadeirydd Dros Dro wedi'i gyfyngu gan y ffaith y cyfyngir ar y swyddogaethau y gall eu harfer. Er enghraifft, pan fydd Cadeirydd Dros Dro yn dod i'r gadair ar gyfer dadl, rhaid i'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd ddychwelyd cyn diwedd y ddadl gan nad oes gan y Cadeirydd Dros Dro y pŵer i ofyn a ddylid derbyn y cynnig drwy amneidio, neu ohirio'r bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

## Cynigion ar gyfer newid y drefn

13. Dim ond yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad y ceir y cyfyngiadau a amlinellir uchod; nid yw Deddf Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo yn hyn o beth. Yr oll a gaiff ei ddatgan yn Adran 25(12) yw y gall y Rheolau Sefydlog gynnwys darpariaeth i sicrhau y gall unrhyw berson a bennwyd yn unol â'r Rheolau Sefydlog arfer swyddogaethau'r Llywydd. Nid yw'r Ddeddf ychwaith yn cyfyngu ar allu unrhyw berson sy'n ymgymryd â swyddogaethau'r Llywydd i bleidleisio.

14. Mae'r cynigion, sydd wedi'u hamlinellu yn Atodiad A, yn ceisio ehangu cwmpas y swyddogaethau y gall Cadeirydd Dros Dro eu harfer, fel bod modd dibynnu mwy ar ddefnyddio Cadeirydd Dros Dro, yn hytrach nag ethol Llywydd Dros Dro neu Ddirprwy Lywydd Dros Dro, yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn absennol.

15. Yn sgîl y newidiadau arfaethedig, ni fyddai modd hyd yn oed wedyn i Gadeirydd Dros Dro gadeirio'r "Cyfnod Pleidleisio", dyfarnu ynghylch pwyntiau o drefn, na chaniatáu i gynnig gweithdrefnol gael ei wneud. Mewn achosion o'r fath, byddai angen cyfeirio'r eitem at y Llywydd i ddyfarnu yn ei chylch, neu ohirio'r cyfarfod nes y byddai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn dychwelyd i'r Siambr.

16. Byddai angen ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro o hyd ar yr achlysuron hynny pan fyddai'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn absennol o'r Cynulliad ac na fyddent ar gael naill i gynnal y bleidlais neu i ddychwelyd i'r Siambr ar fyr rybudd pe bai angen.

## Penderfyniad

17. Derbyniodd y Pwyllgor Busnes y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog ar 13 Tachwedd, a gwahoddir y Cynulliad i gymeradwyo'r cynnig fel y'i nodir yn Atodiad B.

## Atodiad A

| | | |
|---|---|---|
| **RHEOL SEFYDLOG 6 - Y Llywydd a'r Dirprwy** | | |
| **Cadeiryddion Dros Dro yn y Cyfarfodydd Llawn** | | |
| 6.22 | Caiff unrhyw Aelod, ac eithrio aelod o'r llywodraeth, ar gais y Llywydd neu'r Dirprwy pan fo'r naill neu'r llall yn cadeirio cyfarfod llawn o'r Cynulliad, gadeirio dros dro. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon.** |
| 6.23 | Rhaid i Aelod sy'n gweithredu fel cadeirydd beidio ag arfer yr un o swyddogaethau'r Llywydd ac eithrio:<br>i) galw busnes yn y drefn y mae'n ymddangos ar yr agenda;<br>ii) gwneud trefniadau angenrheidiol i addasu'r amserlen ar gyfer busnes er mwyn hwyluso'r modd o gynnal busnes yn effeithiol;<br>iii) ar ddiwedd y trafodion ar eitem o fusnes, gwahodd y Cynulliad i gytuno ar unrhyw gwestiynau y mae angen cytuno arnynt neu ohirio unrhyw gwestiynau y mae angen cytuno arnynt er mwyn cwblhau'r busnes yn unol â Rheolau Sefydlog 12.36 a 12.37;<br>iv) cynnig y dylid grwpio cynigion neu welliannau yn unol â Rheol Sefydlog 12.40;<br>v) o dan unrhyw amgylchiadau pan fydd yn credu bod hynny'n briodol, gohirio'r trafodion neu atal y trafodion am gyfnod penodedig;<br>vi) y rhai a nodir yn Rheol Sefydlog 13 ac eithrio, os yw'r Aelod o'r farn bod ymddygiad Aelod yn cyfiawnhau ymneilltuo, fod yn rhaid i'r Aelod atal y | **Diwygio'r Rheol Sefydlog hon**<br><br>Caiff y Rheol Sefydlog hon ei diwygio i ganiatáu i Gadeirydd Dros Dro arfer rhagor o swyddogaethau'r Llywydd. Mae'r swyddogaethau a gaiff eu cynnwys yn y Rheol Sefydlog ddiwygiedig yn adlewyrchu'r rhai a gaiff eu neilltuo i'r Llywydd gan y Rheolau Sefydlog a ganlyn:<br><br>i) 12.14 + 12.15<br>ii) 12.17<br>iii) 12.36 a 12.37<br>iv) 12.40<br>v) 12.18<br>vi) Rheol Sefydlog 13<br><br>Bydd y newidiadau yn caniatáu i Gadeirydd Dros Dro gadeirio eitemau olynol, ac i 'ofyn y cwestiwn' ar ddiwedd dadl.<br><br>Ymysg swyddogaethau'r Llywydd na fydd modd i Gadeirydd Dros Dro eu harfer o hyd mae:<br><br>• Dethol a dad-ddethol cynigion a gwelliannau;<br>• Caniatáu i eitemau o fusnes gael eu cynnal heb hysbysiad; |

| | |
|---|---|
| cyfarfod dros dro nes y bydd y Llywydd neu'r Dirprwy wedi dychwelyd. | • Cynigion gweithdrefnol;<br>• Rhoi caniatâd i ofyn cwestiynau brys a chynnal dadleuon brys;<br>• Cynnal pleidlais, gan gynnwys arfer 'pleidlais fwrw';<br>• Dyfarnu ynghylch Pwyntiau o Drefn;<br>• Gofyn i Aelod ymneilltuo o'r Siambr;<br>• Cynnal balot. |

**Atodiad B**

**RHEOL SEFYDLOG 6 - Y Llywydd a'r Dirprwy**

**Cadeiryddion Dros Dro yn y Cyfarfodydd Llawn**

6.22 Caiff unrhyw Aelod, ac eithrio aelod o'r llywodraeth, ar gais y Llywydd neu'r Dirprwy pan fo'r naill neu'r llall yn cadeirio cyfarfod llawn o'r Cynulliad, gadeirio dros dro.

6.23 Rhaid i Aelod sy'n gweithredu fel cadeirydd beidio ag arfer yr un o swyddogaethau'r Llywydd ac eithrio:

i) galw busnes yn y drefn y mae'n ymddangos ar yr agenda;

ii) gwneud trefniadau angenrheidiol i addasu'r amserlen ar gyfer busnes er mwyn hwyluso'r modd o gynnal busnes yn effeithiol;

iii) ar ddiwedd y trafodion ar eitem o fusnes, gwahodd y Cynulliad i gytuno ar unrhyw gwestiynau y mae angen cytuno arnynt neu ohirio unrhyw gwestiynau y mae angen cytuno arnynt er mwyn cwblhau'r busnes yn unol â Rheolau Sefydlog 12.36 a 12.37;

iv) cynnig y dylid grwpio cynigion neu welliannau yn unol â Rheol Sefydlog 12.40;

v) o dan unrhyw amgylchiadau pan fydd yn credu bod hynny'n briodol, gohirio'r trafodion neu atal y trafodion am gyfnod penodedig;

vi) y rhai a nodir yn Rheol Sefydlog 13 ac eithrio, os yw'r Aelod o'r farn bod ymddygiad Aelod yn cyfiawnhau ymneilltuo, fod yn rhaid i'r Aelod atal y cyfarfod dros dro nes y bydd y Llywydd neu'r Dirprwy wedi dychwelyd.